SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Adroddiad Blynyddol 2023 – 2024

Wedi'i baratoi gan Llechi Cymru

unesco

Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
Cofrestrwyd ar Restr Treftadaeth y Byd yn 2021

Rhagair

Yr Arglwydd Dafydd Wigley
Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru

Sicrhau Llewyrch o'n Llechi

Rwyf yn ymwybodol iawn fod disgwyliad ymhlith trigolion Gwynedd i weld datblygiadau yn dod i'r amlwg o'r statws Treftadaeth y Byd a ddyfarnwyd gan UNESCO i'n tirwedd llechi yng Ngogledd Orllewin Cymru. Yn naturiol, mae cymunedau Gwynedd yn ysu am weld manteision yn llifo i'r Sir.

Cymerodd dros 10 mlynedd i sicrhau'r dynodiad ac mae datblygu prosiectau i fanteisio ar y dynodiad hefyd yn cymryd amser. Mae hyn yn bennaf gan nad oes cronfeydd cyllidol yn gysylltiedig a'r statws Treftadaeth y Byd UNESCO. Felly nid oedd yn bosib ceisio am gyllid cyn cael sicrwydd o'r statws newydd yn 2021.

Dim ond ar ôl cael y statws yw ei le, yr oedd yn bosib i Gyngor Gwynedd fynd ati i gyllido datblygiadau newydd; a gwnaed hyn mewn cydweithrediad a mudiadau cymunedol, a phartneriaid busnes - o fewn yn Sir, yn ogystal a sefydliadau cenedlaethol. Dim ond o gael yr adnoddau angenrheidiol mewn lle y gallai'r strategaeth ddechrau dwyn ffrwyth.

Sicrhaodd Gyngor Gwynedd £18m gan Llywodraeth Prydain trwy'r cynllun Llewyrch o'r Llechi, sydd yn awr yn cael ei fuddsoddi mewn tair ardal llechi - Hwb Ogwen, Hwb Dinorwig a Hwb Ffestiniog, yn ogystal a gweld buddsoddiad yn chwe prif dref yr ardaloedd llechi.

Mae Cynllun cyffrous ailddatblygu Yr Amgueddfa Lechi yn rhan o Llewyrch o'r Llechi ac mae hefyd wedi sicrhau nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru sydd yn darparu buddsoddiad ychwanegol o £10m i'r tirwedd llechi.

Nid yw'r buddsoddiad yma yn cynnwys prosiectau gan bartneriaid sydd hefyd yn manteisio ar y dynodiad er budd yr ardal – megis Rheilffordd Ffestiniog, Rheilffordd Talyllyn, Castell Penrhyn a Llwybr Llechi Eryri.

Bydd yr Amgueddfa ar gau am ddwy flynedd i gwblhau'r gwaith hanfodol. Yn sgil hynny, bydd gennym leoliad teilwng - nodweddiadol o'r diwydiant Llechi - fydd yn gweithredu fel ffocws i ddehongli'r diwydiant a'i hanes. Bydd hyn yn allweddol i gyflwyno hanes y cymunedau llechi i bobl Cymru - ac yn arbennig i bobl ifanc ein gwlad. Bydd hefyd yn helpu denu ymwelwyr ryngwladol i Wynedd.

Bydd yr Amgueddfa Lechi, yn ei newydd wedd, yn gwasanaethu’r holl diriogaeth o fewn y chwe cydran a ddynodwyd gan UNESCO ac yn annog pobl i ddilyn y stori ar draws ein hardal gan ledaenu budd i’n cymunedau a’n busnesau.

Felly, bydd yn dair mlynedd arall cyn y gwelwn fanteision sylweddol o'r statws Treftadaeth y Byd yn dod i'n cymunedau – a hynny wrth i’r holl brosiectau cyfalaf cyffroes hyn gael eu cwblhau. Pryd hynny, dylai arwain at gyfleon i’r sector breifat a gwirfoddol yng Ngwynedd i fanteisio ar y statws; bydd hyn yn sicr yn her ac yn sialens - ond mae'r cyfle yn bodoli ac mae'n agor y drws i drigolion y cymunedau hyn i fanteisio arno.

Yn y cyfamser, bydd y tîm fechan o fewn Cyngor Gwynedd yn cydweithio efo busnesau, cymunedau a mentrau cymdeithasol o fewn y chwe cymuned a gydnabuwyd gan UNESCO, ynghyd a'r Parc Cenedlaethol, Prifysgol Bangor, asiantaethau hybu twristiaeth ryngwladol, a Llywodraeth Cymru a Phrydain, i hyrwyddo pob cyfle economaidd, diwylliannol, cymdeithasol, addysgiadol a chymunedol sy'n cysylltiedig a'r diwydiant llechi, a thrwy hynny i ddod a chyfleon newydd i drigolion yr ardaloedd hyn.

I gefnogi’r cydweithio a’r cyd-greu yma, mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i sicrhau nawdd trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri, a phartneriaid y Safle Treftadaeth y Byd (STyB) i fedru gweithredu cynllun LleCHI LleNI, sydd werth £2m ac yn rhedeg am gyfnod o bum mlynedd. Bwriad y prosiect yw i greu bwrlwm a balchder yn sgil y dynodiad, yn ogystal a chreu cyfleoedd creadigol, addysgiadol, gwirfoddoli, cadwraeth, sgiliau a chymunedol ar draws yr ardal.

Bydd y buddsoddiad hefyd yn arwain at weithgareddau ar draws ein cymunedau i ddathlu ein rôl wrth doi’r byd ac i gydnabod yr holl straeon sydd ynghlwm a’n hanes.

Mae gennym achos i ddathlu yma yn ardal Gwynedd. Mae’r hyn yr ydym yn ei gyflawni yn dwyn sylw partneriaid ar draws Ynysoedd Prydain a’r byd. Yn ystod y flwyddyn, bu i ni gyflwyno ddwywaith i UNESCO ar yr arfer da sy’n digwydd yma o ran ein gwaith ac fe ddylem ymfalchïo yn yr hyn sy’n cael ei gyflawni ar ein rhan.

Er mwyn atgyfnerthu ein dyhead o roi llais i bawb, rydym wedi addasu ein strwythur Partneriaeth yn ystod y flwyddyn ac edrychaf ymlaen at gael gweld y strwythur newydd yn weithredol o Ionawr 2025 ymlaen pan fydd llais i bawb ar ein Bwrdd Partneriaeth ac o fewn ei is-grwpiau gan gynnwys cymunedau, busnesau, tirfeddianwyr a phartneriaid strategol. Mae’n rhaid i ni barhau i fod yn hyblyg ac yn ystwyth fel Partneriaeth os ydym am barhau i lwyddo a chyflawni.

Hoffwn felly ddiolch i Gyngor Gwynedd am eu gwaith wrth arwain tîm Llechi Cymru. Mae'r tîm craidd wedi cynyddu o ran adnoddau staffio; a hyn sicrhaodd yr adnoddau newydd a ddaeth i'n rhan. Hoffwn ddiolch yn benodol i'r criw fechan, o fewn i’r Adran Economi a Chymuned - sef Roland Evans, Hannah Joyce, Lucy Thomas, Dan Amor, Tom Simone, ac yn

fwy diweddar Ffion Gwyn a Bet Huws, am eu gwaith diflino; ac i Sioned Williams, Pennaeth yr Adran a'r Cynghorydd Nia Jeffreys, deilydd y portffolio Economi a Chymuned am eu hymrwymiad a brwdfrydedd dros y flwyddyn diwethaf.

Mae hwn wirioneddol yn dîm traws-sector ac ni fyddai modd i ni gyflawni heb gyd-weithio hynod gyda'n partneriaid strategol yn Cadw (Llywodraeth Cymru), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Heneb, Prifysgol Bangor, Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol; yn ogystal a'n partneriaid yn y sector cymunedol a phreifat – diolch o galon i chi gyd am eich cyfraniadau a'ch cefnogaeth di-amod.

Ymlaen â ni, gyda'n gilydd, felly, i wireddu'r weledigaeth o gydnabod a gwarchod ein gorffennol ac hefyd i greu cyfleon newydd i adfywio ein cymunedau yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd i sicrhau llewyrch o'n llechi i'r dyfodol.

Yr Arglwydd Dafydd Wigley
Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru

Cynnwys

1.	Cefndir	1.
2.	Llywodraethu a Rheoli	2.
3.	Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru	5.
4.	Datblygu Cynaliadwy yn Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru	14.
5.	LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol (prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol)	23.
6.	Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru	28.
7.	Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru	35.
8.	Gwybodaeth Bellach	38.

1. Cefndir

Mae tair mlynedd bellach ers sicrhau dynodiad STyB i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Rydym wedi derbyn y dynodiad yn seiliedig ar ddatganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol, sef:

Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol ddiwydiannol a ffurfiwyd drwy gloddio llechi a mwyngloddio tanddaearol ar raddfa eang, a thrwy weithio a chludo llechi ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Bu'r diwydiant hwn, yn enwedig rhwng 1780 a 1940, yn ben byd-eang ar gynhyrchu llechi to; fe agorwyd chwareli a chloddfeydd llechi ledled y byd yn sgil trosglwyddiad diwylliannol technoleg a sgiliau; ac fe drawsffurfiwyd yr amgylchedd a'r ffordd o fyw i'r rhai hynny oedd yn byw a gweithio ym mynyddoedd Eryri.

Mae'r datganiad uchod yn greiddiol i'n holl waith, ac yn llywio penderfyniadau y Bwrdd Partneriaeth ynglŷn a datblygiadau, buddsoddiadau, cadwraeth a blaenoriaethau.

Gweledigaeth

Ein nod yw gofalu am a dathlu treftadaeth y dirwedd rymus hon. Ond mae hefyd yn dirwedd fyw - lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Ein gweledigaeth yw adeiladu ar y statws pwysig hwn i amddiffyn ein hanes a'n treftadaeth, wrth hyrwyddo a gwella'r rhanbarth er budd cymunedau lleol a busnesau:

Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu gwerthoedd pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.

Cliciwch **yma** i weld y Ddogfen Enwebiad.

Cliciwch **yma** i weld Casgliad Polisïau Confensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO.



2. Llywodraethu a Rheoli

Caiff pob STyB ei reoli gan gorff atebol, sef Cyngor Gwynedd yn yr achos hwn, ac yn benodol tîm Llechi Cymru. Mae'r tîm yng Nghyngor Gwynedd yn gyfrifol am redeg y safle o ddydd i ddydd ar lefel weithredol, gyda phartneriaid ar draws y dirwedd yn darparu rheolaeth a chefnogaeth yn benodol ar gyfer eu safleoedd.

Mae Bwrdd Partneriaeth STyB yn gyfrifol am redeg y safle ar lefel strategol.

Rydym wedi addasu ein strwythur Partneriaeth yn ystod y flwyddyn, fe fydd y strwythur newydd yn weithredol o Ionawr 2025 ymlaen. Bwriad yr addasiad yw atgyfnerthu ein dyhead o roi llais i bawb yn rheolaeth y STyB trwy sicrhau cyfleoedd i sefydliadau gael cynrychiolaeth ar ein Bwrdd Partneriaeth ac o fewn ein is-grwpiau gan gynnwys cymunedau, busnesau, tirfeddianwyr a phartneriaid strategol.

Strwythur Llywodraethu Llechi Cymru 2025 ymlaen



Cliciwch **yma** i weld cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth.

Am fwy o wybodaeth am strwythur rheoli STyB ac i weld rhestr gyfredol o aelodau'r Bwrdd Partneriaeth, cliciwch **yma**.

Cynllun Rheoli STyB Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Mae'r Cynllun Rheoli STyB yn rhedeg o 2020 i 2030, a daeth i rym ar ôl arysgrifio'r STyB yn 2021. Mae'r Cynllun Rheoli yn ddogfen fyw, annibynnol, ac yn nodi manylion am sut i reoli'r Safle, gofalu amdano, ei ddatblygu a'i fwynhau. Mae Cynllun Gweithredu cyfatebol yn manylu ar sut y bydd mentrau a strategaethau yn cael eu rhoi ar waith, ac yn gweithredu hefyd fel teclyn monitro. Gellir gweld y Cynllun Rheoli **yma**.

Tirwedd Llechi
Gogledd Orllewin Cymru

The Slate Landscape
of Northwest Wales

ENWEBIAD SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Cynllun Rheoli
2020–2030

Cyfarfod â Tîm Llechi Cymru

Roland Evans
Pennaeth Cynorthwyol
Economi a Chymuned

Hannah Joyce
Rheolwr Rhaglenni Adfywio Llechi

Dan Amor
Cydlynydd Treftadaeth y Byd
Gogledd Orllewin Cymru

Tom Simone
Rheolwr Prosiect Llewyrch o'r Llechi

Swyddogion LleCHI LleNI

Lucy Thomas
Rheolwr Prosiect

Bet Huws
Swyddog Dehongli ac
Ymgysylltu Cymunedol

Ffion Gwyn
Swyddog Dysgu a
Datblygu Sgiliau

3. Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Mae grŵp Cadwraeth a Chynllunio STyB yn cyfarfod bob chwarter, gan drafod datblygu a gweithredu mesurau cadwraeth a gwarchodaeth priodol. Mae'r sefydliadau a gynrychiolir ar y grŵp yn cynnwys yr awdurdodau cynllunio lleol (Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri) a Cadw.

Rhaid cadw etifeddiaeth ffisegol y dirwedd llechi hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hon hefyd yn dirwedd fyw, sy'n cyfrannu at les economaidd heddiw. Ni fwriedir i'r enwebiad Treftadaeth y Byd atal newid, ond yn hytrach bydd yn fodd o gefnogi a rheoli newidiadau cadarnhaol.

Mae'r camau rheoli yn cael eu llywio gan y dull a gyflwynir yn y ddogfen **Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy** (Cadw 2011).

Dyma rai enghreifftiau o sut y mae cadwraeth yn cael ei reoli yn y STyB.

Adborth Anffurfiol ar Ddatblygiadau Arfaethedig yn y Safle Treftadaeth y Byd

Rhoddir cyfle i datblygwyr dderbyn adborth anffurfiol ar ddatblygiadau arfaethedig yn, neu'n agos at y STyB, cyn dechrau ar y broses gynllunio ffurfiol. Mae'r sesiynau yn wirfoddol, a hyd yma derbyniwyd adborth cadarnhaol gan rheiny sydd wedi mynychu. Mae'r sesiynau yn ffordd effeithiol o dynnu cynrychiolwyr o gefndiroedd cynllunio, cadwraeth, datblygu economaidd ac ymgynghori cymunedol ynghyd i gynnig adborth proffesiynol yng nghyd-destun STyB. Mae amrywiaeth o sefydliadau o'r sectorau preifat a chyhoeddus yn manteisio ar y sesiynau hyn. Yn ystod y blwyddyn, bu i ni gynnal 7 sesiwn adborth anffurfiol, gyda 5 o'r cynlluniau hynny wedi symud ymlaen i'r broses cynllunio ffurfiol.

Am fwy o wybodaeth am y broses, cliciwch **yma**.

Cymunedau Llechi Gwynedd: Gofal a Chadwraeth

Os oes gennych ddiddordeb yn natur unigryw trefi, pentrefi a chymunedau sy'n ffurfio rhan o Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, dyma lyfryn sy'n werth ei ddarllen. Mae wedi'i anelu at berchnogion eiddo, ac mae'n amlinellu treftadaeth gyfoethog ein cymunedau llechi ac yn cynnig cyngor ymarferol ar warchod ac adfer cymeriad ein hadeiladau er mwyn diogelu cymeriad hanesyddol pwysig ein cymunedau llechi. Ceir trosolwg cryno o bolisïau a phrosesau cynllunio, ynghyd â gwybodaeth am ble i ganfod canllawiau pellach. I weld y canllaw, cliciwch **yma**.



Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru

Mae llyfryn newydd sy'n cynnwys darluniau hyfryd, 'Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru', bellach ar gael hefyd. Mae'n crynhoi hanes y diwydiant llechi, yn disgrifio beth sy'n gwneud tirweddau llechi yn arbennig, ac yn cynnig arweiniad ar sut i ofalu am y lleoedd pwysig hyn. Mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer pob un ohonom sy'n byw ac yn gweithio yn y tirweddau hyn, neu sy'n dod i ymweld. I weld y fersiwn ar-lein, **cliciwch yma**. Mae'r llyfryn hefyd yn cyd-fynd â **Chymunedau Llechi Gwynedd: Gofal a Chadwraeth** (gweler uchod).





Cynllunio

Mae dau Awdurdod Cynllunio yn gofalu am ddatblygiadau yng nghyd destun y STyB, sef Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Y gofyn cyfreithiol yw fod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n cael eu gwneud yn unol a'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi ei fabwysiadu. Y cynlluniau datblygu lleol sydd wedi eu mabwysiadu ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio yw:

- **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn) 2011-2026** a:
- **Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2017-2031**

Mae'r ddau gynllun uchod yn cynnwys polisïau cynllunio sydd yn benodol yn ymwneud a datblygiadau o fewn neu'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o safleoedd treftadaeth byd, ac mae cyfeiriad at Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn y ddau, oedd ar y pryd yn y broses ymgeisio am yr arsgrifiad ac heb ei ddynodi gan UNESCO.



Er mwyn rhoi arweiniad mwy manwl i ddarpar ymgeiswyr, Cynghorwyr a swyddogion cynllunio, mae **Canllaw Cynllunio Atodol - Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru** wedi cael ei baratoi gan y ddau awdurdod cynllunio. Bu'r canllaw yn destun ymgynghoriad anffurfiol oedd yn cynnwys mewnbwn gan aelodau Fforwm Tirfeddianwyr STyB, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, ac yn dilyn hyn cafodd y canllaw ei fabwysiadu gan y ddau awdurdod yn 2022.

Ers arsgrifiad ffurfiol yng Ngorffennaf 2021, mae'n ofynnol i'r ddau Awdurdod roi ystyriaeth i geisiadau perthnasol o fewn a/neu ger yr ardal fel ardal sydd wedi ei arsgrifio'n STyB, gan roi ystyriaeth i'r polisïau cynllunio perthnasol, a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Er fod yr arsgrifiad yn ddynodiad ffurfiol ar yr ardal fel STyB gan UNESCO, mae'r gwarchodaeth sydd eisoes yn bodoli ar y tirwedd llechi trwy statws y Parc Cenedlaethol a'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol eisoes yn diogelu ein tirwedd a nodweddion pwysig.

Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio ers Arsgrifo

Ers yr arsgrifiad mae'r mwyafrif o'r ceisiadau cynllunio sydd wedi eu cyflwyno o fewn a/neu ger yr ardal STyB wedi bod yn ardal awdurdod cynllunio Cyngor Gwynedd, sydd yn adlewyrchu natur mwy trefol yr ardal. Gweler trosolwg o'r nifer o geisiadau dros y cyfnod a'r penderfyniadau yn y tabl gyferbyn.

Allan o'r 88 o geisiadau a wrthodwyd 3 cais yn unig oedd yn cynnwys rhesymau gwrthod oedd yn cyfeirio at y STyB. Er hyn, mae angen pwysleisio mai nid yr STyB oedd yr unig rheswm na'r prif reswm dros wrthod y ceisiadau yma. Gwrthodwyd y ceisiadau am resymau yn ymwneud a dyluniad, effaith gweledol a rhesymau cynllunio eraill. Hyd yn oed heb y dynodiad STyB mi fuasai'r 3 cais wedi eu gwrthod beth bynnag.

Cyfanswm Ceisiadau	661
Caniatawyd	573
Gwrthodwyd	88
Gwrthodwyd (cynnwys cyfeiriad at STyB)	3

Pa wahaniaeth mae'r arsgrifiad fel Safle Treftadaeth y Byd wedi ei gael ar benderfyniadau cynllunio?

Yr hyn mae'r dystiolaeth o ran penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ers yr arsgrifiad yn tueddu ei ddangos hyd yma, yw nad yw'r statws wedi cael unrhyw effaith arwyddocaol ar benderfyniadau ar geisiadau cynllunio, a hynny, mae'n debyg, oherwydd y gwarchodaeth o ran dynodiadau tirwedd ac amgylchedd presennol sydd wedi eu sefydlu yn yr ardal.

Yr hyn sydd yn bwysig gyda pob cais cynllunio yw fod yr wybodaeth a'r dystiolaeth berthnasol yn cael ei gyflwyno gyda'r cais, ac annogir darpar ymgeiswyr i fanteisio ar y gwasanaeth cynnig cyngor cyn cyflwyno cais a ddarperir gan y ddau awdurdod, fel y gallent dderbyn arweiniad gan y Gwasanaethau Cynllunio ar eu cynigion cyn bo cais yn cael ei gyflwyno. **Cliciwch yma**.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)



Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yn parhau â'u gwaith pwysig i gofnodi enwau lleoedd hanesyddol Cymru. Mae'r **Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru** yn cynnwys dros chwarter miliwn o enwau lleoedd hanesyddol a gasglwyd o ffynonellau amrywiol.

Mae'r rhestr yn cael ei llunio a'i chynnal gan CBHC ar ran Gweinidogion Cymru yn sgil y ddarpariaeth ar gyfer rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae'r rhaglen waith barhaus yn cynnwys - gweithio ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Eryri - darparu sesiynau lle gwahoddir aelodau'r cyhoedd i gyfrannu enwau lleoedd. Roedd tîm Llechi Cymru yn bresennol mewn un digwyddiad o'r fath yn Nolbenmaen yn ystod haf 2024.

Mae CBHC hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Mynydda Prydain ar enwau ardaloedd, dringfeydd a nodweddion yn Chwarel Dinorwig: **cliciwch yma**.



Gwaith Cadwraeth, Ysbyty Chwarel y Penrhyn

Trwy gynllun Llewyrch o'r Llechi, wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU, mae gwaith cadwraeth argyfwng wedi ei gwblhau ar Ysbyty Chwarel y Penrhyn (Dyffryn Ogwen).

Yn ddiweddar, mae cyflwr yr ysbyty wedi dirywio, gyda'r gwaith maen yn methu, a llystyfiant yn ymledu. Yn gynnar yn 2024, fe gomisiynwyd cwmni Highlife i ymgymryd a gwaith cadwraeth argyfwng er mwyn diogelu'r heneb. Gellir gweld ffilm fer o'r gwaith yma: **Ysbyty Chwarel y Penrhyn**.

Yn dilyn y gwaith argyfwng yma, rydym wedi comisiynu cwmni Recclesia i ymgymryd a gwaith i ddiogelu'r heneb ymhellech. Mae'r prosiect yn cael ei wneud mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Welsh Slate (fel rhan o grŵp Breedon) a Cadw.

© Highlife Rope Access

Delweddau: © Highlife Rope Access

Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Tachwedd 2024, a disgwylir iddo bara tua saith mis, gan ganolbwyntio ar atal dirywiad pellach a gwneud y safle'n fwy sefydlog ac yn fwy diogel i ymwelwyr. Bydd yn cynnwys:

- Sefydlogi ac atgyfnerthu cyflwr y waliau sy'n dirywio drwy fynd i'r afael â diffygion strwythurol
- Sefydlogi ac atgyfnerthu'r gwaith maen a phwyntio morter
- Cyflwyno copin cerrig a gwaith ar bennau'r waliau er mwyn lleihau faint o ddŵr sy'n mynd i graidd y wal
- Gwarchod y manylion pensaernïol a hanesyddol sy'n weddill oddi mewn
- Rheoli twf llystyfiant

Bydd sicrhau bod y strwythur yn ddiogel hefyd yn caniatáu ar gyfer cynnal a chadw parhaus yn y dyfodol.

Bydd diwrnodau agored yn cael eu trefnu yn ystod cyfnod y gwaith er mwyn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd weld drostynt eu hunain beth sy'n digwydd yn Ysbyty Chwarel y Penrhyn. Ni fydd y prosiect yn effeithio ar fynediad i Lôn Las Ogwen.

Cadwraeth Cymunedol, Mynwent Tanysgafell

Fel rhan o gyfnod datblygu prosiect LleCHI LleNI, peilotwyd nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Yn Ionawr 2024 cynhaliwyd sesiynau i glirio llystyfiant ac i gofnodi gwybodaeth ym Mynwent Tanysgafell, ger Bethesda ar y cyd gyda Heneb: Archaeoleg Gwynedd. Rhoddodd hyn ddarlun o gymdeithas yn ei gyfanrwydd, o'r chwarelwyr, eu gwragedd a'u plant, i'r ystod o bobl eraill oedd yn rhan o gymdeithas chwarelyddol.

© Heneb: Archaeoleg Gwynedd

Er mwyn sicrhau bod y weithgaredd yn agored i ystod o bobl, cynhaliwyd sesiwn gyda'r gymuned leol ar gasglu achau a trefnwyd teithiau cerdded gyda hanesydd lleol. Llwyddodd y prosiect i gipio dychymyg y gymuned ac roedd llefydd ar y digwyddiad peilot wedi eu llenwi o fewn 24 awr o'u hysbysebu a chafwyd sylw yn y wasg, gan gynnwys eitem ar raglen Radio Cymru Aled Hughes. Bydd y prosiect yn cael ei ymestyn ar draws y STyB fel rhan o'r cynllun LleCHI LleNI ac yn digwydd ym Mro Ffestiniog yn 2024-25.

Delweddau: © Heneb: Archaeoleg Gwynedd

4. Datblygu Cynaliadwy yn Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Mae gweledigaeth y STyB yn blaenoriaethau cefnogi tirwedd gynaliadwy, esblygol sydd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd a chreu cymunedau byrlymus, a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg.

Mae Is-grŵp Buddion STyB yn gweithio mewn partneriaeth gydag sefydliadau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a thrydydd sector i geisio sicrhau bod y dynodiad STyB yn dod â'r budd mwyaf i gymunedau yn y dirwedd llechi.

Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau dros £30 miliwn o fuddsoddiad trwy grantiau ar gyfer yr ardal, a trwy bartneriaethau yn gweithredu ar gynlluniau sylweddol o fewn y dirwedd llechi, er lles ein cymunedau.

Cynllun Llewyrch o'r Llechi

Yn 2022, llwyddodd Cyngor Gwynedd i sicrhau nawdd sylweddol gan Llywodraeth y DU ar gyfer cynlluniau adfywio trwy ddiwylliant yn y dyffrynnoedd llechi. Sicrhawyd dros £18m trwy grant Llywodraeth y DU, gyda dros £10m wedi ei ymrwymo trwy gyllid cyfatebol.

Rwy'n hynod falch o weld bod y dynodiad Treftadaeth Byd bellach yn dwyn ffrwyth ac yn arwain at fuddsoddiadau cyfalaf sylweddol ar draws ein cymunedau llechi. Mae'r gwelliannau y byddwn yn eu gweld dros y misoedd ar blynyddoedd nesaf yn mynd at wraidd ein cymunedau ac yn brosiectau fydd yn hybu balchder yn ein treftadaeth a'n hanes er lles ein trefi a'n pentrefi i'r dyfodol.

Bydd yr arian refeniw trwy gynllun LleCHI LleNI yn ategu at y gwaith hwn ac yn sicrhau bod ein holl gymunedau o fewn y tirlun llechi yng Ngwynedd yn cael cyfle i gofio, cydnabod a dathlu ein stori ac i ymfalchïo yn ein iaith, ein diwylliant a'r hyn gyfrannodd ein hardaloedd llechi eithriadol i Wynedd ac i'r byd.

[Cynghorydd Nia Jeffreys, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd a'r Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned]

Dim ond un ym mhob pedwar cais i'r Gronfa Ffyniant Bro a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol y DU fu'n llwyddiannus. Un o gryfderau'r cais Llewyrch o'r Llechi oedd y modd yr oedd yn adeiladu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Rheoli STyB a'r dull partneriaeth tuag at adfywio rhwng Cyngor Gwynedd a'r partneriaid cyflawni.

Hwb Ogwen

Neuadd Ogwen

Mae gwaith gwrthsain ac uwchraddio yn y Neuadd wedi ei gwblhau, gyda system goleuo newydd yn cael ei osod yn gynnar yn 2025. Fe fydd y Neuadd wedyn yn barod i ail-lansio ei hun fel un o leoliadau diwylliannol gorau yr ardal a chroesawu amrediad o artistiaid cyffrous i Ddyffryn Ogwen.

Yr Hen Bost

Mae Partneriaeth Ogwen wedi penodi contractwyr i ymgymryd a'r cynllun adfywio cyffrous yma, yn cynnwys gwaith uwchraddio ac ymestyn cyn adeilad Spar ar Stryd Fawr Bethesda. Fe fydd gwaith yn cychwyn arno ym Mis Ionawr 2025. Fe fydd y cynllun yn gweld hwb cymunedol, canolfan dreftadaeth, unedau busnes, caffi/bwyty, darpariaeth hurio beiciau a gofod creadigol yn cael eu creu.

© Partneriaeth Ogwen

Gwella Cysylltedd

Mae gwaith wedi ei gwblhau ar uwchraddio pont a llwybrau ger Porth Penrhyn, ac fe fydd gwaith yn cychwyn ar Lon Las Ogwen a Phont Sarnau yn y misoedd nesaf. Bwriad y cynllun yw i wella cysylltiadau rhwng Bethesda a'r tirwedd llechi, i annog gwell dealltwriaeth o'r tirwedd ac hefyd gwella cyfleoedd hamdden a lles i bobl.

Hwb Dinorwig

Ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi

Cynllun i ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi yn brif hwb STyB, trwy ymgymryd a gwaith cadwraeth sylweddol, creu gofodau addysg ac arddangos newydd, gwella mynediad i'r safle (yn cynnwys lifft i'r Llofft Batrwm), dehongli newydd, ailfodelu gofodau'r caffi a'r siop, a chreu lle chwarae newydd. Un o brif amcanion y datblygiad yw gwarchod naws unigryw yr Amgueddfa a sicrhau fod yr elfennau ohono sydd yn bwysig i bobl yn cael eu cadw.

Mae safle'r Gilfach Ddu wedi cau am gyfnod o 20 mis er mwyn cyflawni'r ailddatblygiad, fe fydd gan yr Amgueddfa bresenoldeb dros dro yn Ysbyty Chwarel Dinorwig, Castell Penrhyn a Cei Llechi (Caernarfon), yn ogystal a gweithio gyda cymunedau i sicrhau fod darpariaeth bwysig yr Amgueddfa yn parhau yn ystod y cyfnod cyffrous hwn.

Delweddau: © Amgeuddfa Lechi

Gwelliannau Parc Padarn

Mae nifer o gynlluniau ar waith ym Mharc Padarn, yn cynnwys ail-bwrpasu adeiladau hanesyddol o gwmpas y safle megis Sied y Fire Queen i'n galluogi i ddychwelyd yr injan i'w chartref gwreiddiol, a throi Hafod Owen yn ofod dehongli a gwirfoddoli. Mae gwaith cadwraeth eisoes ar waith ar Inclên yr A1, ac mae cynlluniau cyffrous i godi bloc toiledau ac amwynderau newydd, yn ogystal a gwaith dehongli a chyfeirio.

Hwb Ffestiniog

Aelwyd yr Urdd

Mae cynllun i uwchraddio Aelwyd yr Urdd ym Mlaenau Ffestiniog yn prysur ddirwyn i ben, gyda'r gwelliannau yn golygu fod canolfan ieuenctid a chymunedol o'r safon uchaf ar gael i drigolion yr ardal, yn cynnwys datblygiadau ynni arloesol er mwyn sicrhau statws Passivhaus i'r adeilad fydd yn sicrhau hyfywdra tymor hir yr adeilad i Antur Stiniog.

Delweddau: © Eiddo Antur Stiniog

Siop Ephraim a Chaffi Bolton

Fe fydd gwaith yn cychwyn yn y flwyddyn newydd i ddod a'r ddwy siop hanesyddol yma yn ôl i ddefnydd ar ôl blynyddoedd maith o sefyll yn wag. Fe fydd Antur Stiniog yn troi y ddwy eiddo yn unedau busnes a preswyl, ac hefyd yn creu gofod creadigol trwy gyfuno dau lawr gwaelod yr adeiladau.

© Eiddo Antur Stiniog

Llwybr Llechwedd

Mae’r gwaith o greu llwybr cerdded, a llwybr beicio i hwyluso mynediad rhwng Blaenau Ffestiniog a chwarel Llechwedd ar waith, rhagwelir fydd y cynllun wedi ei gwblhau yn gynnar yn 2025. Datblygwyd y cynllun fel rhan o flaenoriaethau teithio llesol yr ardal.

Cynlluniau Gwella Canol Tref

Fel rhan o’r cynllun Llewyrch o’r Llechi yn ehangach, mae cynlluniau gwella canol tref yn cael eu gwireddu mewn chwech o’r prif drefi llechi, sef Bethesda, Llanberis, Blaenau Ffestiniog, Penygroes, Tywyn a Porthmadog.

Celf Cyhoeddus

Rydym yn falch o fod yn cydweithio gydag artistiaid talentog lleol i wireddu cynlluniau celf unigryw ar gyfer yr trefi llechi, mae’r gwaith wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth a’r cymunedau lleol er mwyn cyfleu naws unigryw yr ardaloedd, a chynnig cyfle iddynt ddathlu a gwella dealltwriaeth am eu hunaniaeth leol.

Fe fydd y darnau celf wedi eu gosod dros y misoedd nesaf.

Gwelliannau Isadeiledd Bychan

Fe fyddwch yn sylwi ar welliannau i brif gyrchfannau y dyffrynnoedd llechi dros y misoedd nesaf, wrth i gyfres o welliannau isadeiledd bychan gael eu gwireddu. Mae rhain yn cynnwys gwaith i ail-wynebu troedffyrdd a lonydd, gosod biniau a meinciau newydd, a stribedi llechi yn y palmentydd gyda dywediadau lleol, enwau neu gerddi wedi eu naddu ynddynt.

Arwyddo

Mae gwaith yn mynd rhagddi i ddylunio a gweithredu cynlluniau arwyddo newydd yn y trefi llechi, mae'r wedd gyntaf yn cynnwys uwchraddio a diweddaru arwyddion cyfeirio y trefi, fe fydd yr arwyddion newydd yn dilyn naws y paneli dehongli er mwyn sicrhau cysondeb a chydnabyddiaeth brand STyB ar draws y tirwedd llechi.

© Inigo Jones

5. LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol (prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol)

Yn mis Gorffennaf, cawsom y newyddion gwych bod ein cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri wedi bod yn llwyddiannus. Mae LleCHI LleNI yn brosiect gwerth £2 filiwn dros 5 mlynedd (2024-2029). Mae'n rhan hanfodol o ymdrech strategol ehangach y STyB i gysylltu ystod eang o bobl â'r dirwedd lechi a defnyddio y statws UNESCO fel sbardun ar gyfer adfywio economaidd a chymdeithasol, gan anelu at rymuso cymunedau ar draws Gwynedd.

LleCHI LleNI yw'r elfen o'r ymdrech sy'n canolbwyntio ar bobl er mwyn darparu ymgysylltiad i bawb, gan ennyn ymdeimlad cryf o gynefin a balchder lleol yn y dirwedd lechi, gwella lles, darparu cyfleoedd, datblygu sgiliau a hybu'r economi leol. Rydym yn ei weld fel y llinyn arian sy'n cysylltu ein holl hymdrechion.



Cychwynnodd y prosiect yn swyddogol ym Medi 2024. Apwyntiwyd tîm prosiect sy'n cynnwys Rheolwr Prosiect (Lucy Thomas), Swyddog Dehongli ac Ymgysylltu Cymunedol (Bet Huws) a Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau (Ffion Gwyn). Mae'r tair yn edrych ymlaen at gydweithio ag ystod eang o bartneriaid ar draws y dirwedd lechi. Bydd y digwyddiadau cyntaf fel rhan o'r prosiect yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2024 gan gynnwys darlith yn Mynydd Llandygai a thaith gerdded yn Neiniolen.



Ar gyfer pwy mae’r prosiect?

Bydd prosiect LleCHI LleNI yn canolbwyntio'n bennaf ar y drigolion o bob oedran yn y cymunedau sydd agosaf at y STyB ond hefyd yn ymestyn allan ar draws Gwynedd yn ogystal ag ymgysylltu ag ymwelwyr i'r dirwedd lechi er mwyn hyrwyddo twristiaeth gymunedol, gynaliadwy. Mae nifer o grwpiau targed wedi eu hadnabod o fewn ein cymunedau er mwyn sicrhau fod ystod eang o bobl yn gallu cymryd rhan.

Pa weithgareddau fydd yn rhan o LleCHI LleNI?

- Grantiau i grwpiau cymunedol ar gyfer eu prosiectau llechi eu hunain i annog balchder mewn treftadaeth, lles a datblygu sgiliau
- Fforwm cymunedol ar gyfer llais cymunedol wrth reoli’r STyB
- Gwaith dehongli sy'n adrodd stori llechi trwy bersbectif cymunedau amrywiol
- Mynd allan yn yr awyr agored fel rhan o deithiau cerdded tywys a gweithgareddau lles
- Sesiynau galw heibio i'r teulu
- Diogelu’r STyB – gweithgareddau gwarchod treftadaeth a sesiynau cadwraeth cymunedol
- Gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol sy'n dathlu ein treftadaeth llechi
- Gweithgareddau i hybu a gwella bioamrywiaeth
- Perfformiadau – gan gynnwys drama, cerddoriaeth a'r gair llafar
- Hanes llafar
- Gweithdai ysgolion, gwibdeithiau awyr agored a gweithgareddau ar-lein
- Llysgenhadon Llechi Ifanc – cyfleoedd a datblygu sgiliau ar gyfer pobl ifanc 13-18 oed
- Adnoddau a gweithgareddau i ddysgwyr Cymraeg
- Sgiliau traddodiadol – hyfforddiant ffurfiol, achrededig a sesiynau anffurfiol
- Cwrs Cynefin a Chymuned - llysgenhadon yn cefnogi twristiaeth gymunedol gynaliadwy
- Hyfforddiant busnesau – i helpu staff i gyfleu gwybodaeth i gwsmeriaid ac ymwelwyr
- Ymchwil – gan gynnwys archwilio hanes cudd neu heb gynrychiolaeth ddigonol
- Adnoddau digidol i helpu pobl i gael mynediad i'r dirwedd a chysylltu â hi o bell
- Teithlenni â themâu, i hyrwyddo eco-deithio a thwristiaeth gymunedol gynaliadwy
- Rhannu gwybodaeth a negeseuon diogelwch
- Cyfleoedd gwirfoddoli

Digwyddiadau Busnes

Mae tîm Llechi Cymru, gan weithio ar y cyd â thîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd, wedi trefnu cyfres o sesiynau 'brecwast busnes' yn y gwahanol gydrannau ar draws y STyB. Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd yn ngwanwyn 2024 yn Zipworld, Bethesda, yn llawn. Mae'r sesiynau yn canolbwyntio ar sut mae'r statws Treftadaeth y Byd yn fuddiol i fusnesau lleol.

Hyfforddiant

Er mwyn cefnogi staff sy'n gweithio gyda'r cyhoedd ar draws sefydliadau a busnesau amrywiol yng Ngwynedd i gyfleu gwybodaeth ac ateb cwestiynau am y STyB rydym wedi datblygu hyfforddiant penodol. Cynhaliwyd ein digwyddiad mwyaf diweddar ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.

'...Defnyddiol dysgu mwy am y dynodiad a sut y bydd hyn yn fuddiol i Eryri a Gwynedd.'

[mynychwr]

Yr Iaith Gymraeg

Mae o leiaf 65% o boblogaeth Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn siarad Cymraeg (gyda chyfran uwch mewn rhai ardaloedd). Cymraeg oedd prif iaith y chwareli, ac roedd y pentrefi a'r trefi a ddatblygodd yn yr ardaloedd chwarelyddol - ac maent yn parhau i fod - yn bennaf yn gymunedau Cymraeg eu hiaith. Roedd twf y trefi a'r pentrefi hyn yn fodd o gryfhau'r iaith.

Mae'r iaith yn ganolog i'n rheolaeth o'r STyB. Mae rhaglenni o weithgareddau a digwyddiadau a gyflwynir gan Llechi Cymru yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (ac yn ddwyieithog yn ôl yr angen). Mae'r holl waith dehongli yn y STyB yn ddwyieithog.

Bydd un haen o'n prosiect LleCHI LleNI wedi'i hanelu'n benodol at ddysgwyr Cymraeg - gwerth pum mlynedd o gefnogaeth, adnoddau a gweithgareddau.

Un amcan o Gynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yw mesur effaith twristiaeth o safbwynt ieithyddol.

Mae gennym gynrychiolaeth Menter Iaith Gwynedd ar ein his-grŵp ‘Elwa o Safle Treftadaeth y Byd’.

Gweler tudalen 10 am wybodaeth am waith CBHC ar gofnodi enwau lleoedd Cymraeg.

Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, fe lansiwyd Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sef cynllun strategol yr ardal ar gyfer gwireddu economi ymweld cynaliadwy.

Sefydlwyd Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 gyda Bwrdd Strategol, grŵp Sector Twristiaeth newydd a nifer o is-grwpiau er mwyn sicrhau perchnogaeth o'r economi ymweld gan gymunedau, busnesau a'r sector cyhoeddus. Trwy'r Bartneriaeth fe ddatblygwyd Cynllun Gweithredu 2024-35 fydd yn ymateb i gyfleon a phryderon yr ardal a thrafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Fe etholwyd dau gyd-gadeirydd i'r Bartneriaeth – un o'r sector cymunedol (Einir Young, Eco-amgueddfa Llyn) ac un o'r sector busnes (Michael Bewick, JW Greaves & Sons) er mwyn sicrhau llais cytbwys i bawb a chynrychiolaeth deg ar y Bartneriaeth.

Mae twristiaeth yn yrrwr economaidd pwysig yng Ngwynedd, ac ar draws llawer o'r STyB a bydd datblygu'r berthynas rhwng Partneriaethau Llechi Cymru a Gwynedd ac Eryri 2035 yn allweddol er mwyn manteisio ar waith ymchwil, buddsoddiadau isadeiledd, targedu marchnadoedd tramor ac er mwyn ymateb i faterion lleol o fewn ein cymunedau a'n cyrchfannau o ran yr economi ymweld.

Am ragor o wybodaeth ar Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035, **cliciwch yma**.

Arolwg Twristiaeth - Trigolion Gwynedd

Yn dilyn ymchwil a gynhaliwyd gan Croeso Cymru yn 2023, yn fwy diweddar lansiodd Cyngor Gwynedd **arolwg twristiaeth** ar gyfer trigolion y sir, er mwyn deall barn cymunedau lleol ar dwristiaeth yn well. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiwn ar STyB Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

© Roger Dimmick, Rheilffordd Ffestiniog

6. Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Un amcan o'n cynllun rheoli yw sicrhau bod modd i drigolion ac ymwelwyr fwynhau, profi a deall y STyB.

Eryri Mynyddoedd a Môr

Mae gwefan **Eryri Mynyddoedd a Môr** yn fan cychwyn da i'r rhai sy'n dymuno crwydro Eryri, ac mae'n cynnwys syniadau ar beth i'w wneud a'i weld ar draws y STyB.



Ardaloedd Llechi

Yn ogystal, mae ein **gwefan Llechi Cymru** yn cynnwys llu o ddewisiadau ar beth i'w wneud a'i weld yn y STyB. Mae'r tab '**Ardaloedd Llechi**' yn cynnwys gwybodaeth am deithiau cerdded, nodweddion ac atyniadau ym mhob cydran. Mae'r ddewislen 'Crwydro'r Ardal', o dan y tab '**Adnoddau**' yn rhestru nifer o deithiau manwl, gan gynnwys gwybodaeth am **Lwybr Llechi Eryri**, taith gerdded 83 milltir sy'n '...mynd â chi ar daith yn ôl i amser pan oedd Eryri yn ganolbwynt i'r diwydiant llechi'.



Mwynhad Cyfrifol o'r Tirlun Llechi

Agwedd allweddol ar ein strategaeth ddehongli yw annog mwynhad cyfrifol o'r STyB. Mae hon yn dirwedd fyw, a gofynnwn i'r rhai sy'n dod yma barchu cymunedau lleol a dymuniadau tirfeddianwyr, a pharchu ein tirwedd hanesyddol arbennig. Mae'r isadeiledd i ymwelwyr yn amrywio rhwng pob cydran, a dylech ystyried hyn wrth gynllunio eich ymweliad.

Rydym hefyd yn gofyn i bobl fwynhau'r dirwedd hon mewn modd diogel. Nid yw pob rhan o'r STyB yn hygyrch i'r cyhoedd, ac mae rhai ardaloedd yn beryglus. Mae rhai rhannau o'r ardaloedd ucheldirol yn agored i'r tywydd - mae'n bwysig i bobl ystyried y ffactorau hyn wrth gynllunio eu hymweliad. Mae rhagor o wybodaeth am sut i fwynhau ymweliad yn ddiogel ar gael **yma**.



Cyfryngau Cymdeithasol

Mae nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i dyfu, ac mae'n parhau i fod yn ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth. Mae'r cynnwys yn rhoi sylw i fusnesau lleol a mentrau cymdeithasol, newyddion a digwyddiadau, diweddariadau prosiect, negeseuon diogelwch a negeseuon cyffredinol am y dirwedd hanesyddol.



Blas ar Ddigwyddiadau

Mawrth 2024

Busnes Brecwast, Zipworld

Ebrill 2024

Dathlu 150 mlynedd Undeb y Chwarelwyr, Amgueddfa Lechi Cymru a Chraig yr Undeb

Ble i gael mwy o wybodaeth
Where to get more information



Cynnwys

1. Cefndir 1.
2. Llywodraethu a Rheoli 3.
3. Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 6.
4. Datblygu Cynaliadwy yn Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 11.
5. Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 16.
6. Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 19.
7. LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol (prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) 22.
8. Gwybodaeth Bellach 26.

Y Gronfa Ffyniant Bro (Llewyrch o'r Llechi)

Mae'r pecyn cymorth o'r cyllid Ffyniant Bro yn ein cynorthwyo i adeiladu ar y statws Treftadaeth y Byd.

Bydd gan lawer o deuluoedd lleol hynafiaid oedd yn gweithio naill ai yn chwareli Eryri neu ddiwydiannau cysylltiedig, ac mae gennym le i ymfalchio yn y ffaith y bydd eu gwaddol iaith Gymraeg, dosbarth gweithiol, yn cael ei ddiogelu, ei hyrwyddo a'i ddathlu, diolch i'r statws Treftadaeth y Byd UNESCO, a'n bod yn gallu defnyddio'r dynodiad fel ysgogydd i ddenu cyllid megis y Gronfa Ffyniant Bro.

(Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd Cyngor Gwynedd a'r Aelod Cabinet dros yr Economi a Chymunedau)

Dim ond un ym mhob pedwar cais i'r Gronfa Ffyniant Bro a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol y DU fu'n llwyddiannus. Un o gryfderau'r cais Llewyrch o'r Llechi oedd y modd yr oedd yn adeiladu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Rheoli STyB a'r dull partneriaeth tuag at adfywio rhwng Cyngor Gwynedd a'r partneriaid cyflawni.

Hwb Ogwen (Cydran 1)

7. LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol (prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol)

Gwnaed yn bosibl gan / Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Hawlfraint: David Peers

Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid STyB wedi cydnabod pwysigrwydd manteisio i'r eithaf ar lwyddiant prosiect LleCHI CTyLG. Fel rhan o'r cynllun newydd, mae pwyslais ar ddatblygu swyddogaeth cymunedau wrth reoli a datblygu'r STyB.

Mae grwpiau nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â threftadaeth yn cael eu targedu, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau a chreu cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth yn y sector treftadaeth. Mae bwriad hefyd i gryfhau rhwydweithiau a rhannu perchnogaeth leol a chyfrifoldeb am y STyB.

Mae nifer o'r themâu a'r amcanion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn yn ganolog i brosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (er enghraifft, cadwraeth, twristiaeth gynaliadwy, mwynhau'r STyB, dehongli ac addysg).

Yn dilyn rownd gymtaf lwyddiannus y cais CTyLG, rydym wedi bod yn peilota gweithgareddau, cymnal ymchwil ac ymgysylltu gydag amrywiaeth o randdeiliaid ar draws y STyB wrth i wedd datblygu'r prosiect barhau.

Dyma rai o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau rydym wedi gweithio arnynt:

22

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

Mehefin 2024

Cwrs Hyfforddiant i Fusnesau , Plas Tan y Bwlch

Gorffenaf 2024

'Rhannu'r Hen Fynyddoedd' (ar y cyd efo APCE), Gŵyl Arall, Caernarfon

Medi 2024

'Tirweddau Diwylliannol Rhyfeddol: Dynodiadau Treftadaeth y Byd'

Cyfarfod blynyddol Cymdeithas Astudiaethau Bywyd Gwerin, Galeri, Caernarfon

Hydref 2024

Diwrnod galw i mewn, Canolfan Golan, Dolbenmaen

Mehefin 2024

Taith Rheilffordd Talyllyn Llechi Cymru

7. Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Amcan allweddol yw sicrhau bod y STyB yn ganolbwynt ar gyfer dysgu ac ymchwil a rennir, i feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o werthoedd a phriodweddau'r dirwedd hon.

Prifysgol Bangor

Mae Prifysgol Bangor yn aelod o Fwrdd Partneriaeth STyB. Mae gan ddwy raglen BA israddedig gynnwys ar y ddau STyB yng Ngogledd Orllewin Cymru, ynghyd â'r MA mewn Treftadaeth Fyd-eang. Mae staff Cyngor Gwynedd a Cadw yn cyfrannu at raglenni darlithoedd blynyddol.

Pont Sarn Wyth-dŵr, Dyffryn Nantlle

Mae Dorothea Pumped Hydro a Phrifysgol Bangor yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth barhaus hirdymor i gyflwyno'r elfen dreftadaeth Project Dorothea. Ym mis Medi 2023 cynhaliodd y tîm gwaith yn Sarn Wyth-dŵr (rhestredig Gradd II) fel rhan o'r ymdrech dreftadaeth hon. Arweiniodd gwaith staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor mewn cydweithrediad â Heneb at ail-ddehongliad o’r bont. Yn wreiddiol, credir bod y bont yn dyddio o'r 19eg ganrif ond canfu ymchwiliadau gan dîm Project Dorothea fod y bont yn rhagflaenu'r chwarel ac yn rhan o'r ffordd ar draws afon Llyfni cyn iddi gael ei dargyfeirio.

Roedd y prosiect yn cynnwys clirio llystyfiant ar y safle er mwyn galluogi arolwg cyflwr, ac roedd hyn yn galluogi'r cynhyrchiad o fodel 3D o’r rhannau o'r strwythur oedd newydd ddod i'r golwg.

Roedd hwn yn gyfle gwych i fyfyrwyr ennill profiad gwaith maes archaeolegol hanfodol ac roedd yn llwyddiannus wrth ymgysylltu cymuned Nantlle â threftadaeth a hanes safle'r chwarel.

Grŵp Addysg a Dysgu

Fel rhan o'n strwythur llywodraethu diwygiedig, rydym yn y broses o sefydlu grŵp Addysg a Dysgu. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r sector addysg. Cynhyrchwyd dogfen gwmpasu fyw yn manylu ar y ddarpariaeth addysgol gyfredol sy'n ymwneud â'r STyB, gan gynnwys gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Archifau Gwynedd, Amgueddfa Lechi Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Rheilffyrdd Treftadaeth, Llwybr Llechi Eryri, mentrau cymdeithasol a'n cylch gorchwyl addysgol ein hunain fel Llechi Cymru.

Gweithio gydag Ysgolion

Yn 2023 bu ymgysylltu rhwng tîm Llechi Cymru ac ysgolion uwchradd yn ardal y STyB. Gofynnwyd am fewnbwn gan bobl ifanc ar sut i redeg ein prosiect Llysgenhadon Llechi Ifanc nesaf, sy'n rhan o brosiect LleCHI LleNI Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Rhoddwyd mewnbwn gwerthfawr gan bobl ifanc am y math o weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt wrth ddysgu am y dirwedd hanesyddol.

Mae Cadw wedi bod yn gweithio ar becyn adnoddau addysgol tirwedd llechi ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae Llwybr Llechi Eryri yn cynhyrchu cyfres o adnoddau sy'n galluogi dysgwyr ysgolion cynradd ac athrawon i ddefnyddio llwyfannau digidol ffynhonnell-agored i ddysgu am y dirwedd llechi. Mae'r dull hyblyg a ddefnyddiwyd yn golygu y gellir cyflwyno'r adnoddau hyn i grwpiau a chynulleidfaoedd targed eraill yn y dyfodol.

Mae gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd llechi, 'Sut mae tirwedd Eryri wedi cael ei llunio gan Lechi?' ar gael ar **Tirlun**.

Cwrs Llysgennad Gwynedd a Llysgennad Eryri

Mae Cyrsiau Llysgennad Gwynedd a Llysgennad Eryri yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant ar-lein lle mae cyfranogwyr yn dysgu am yr hyn sy'n gwneud Gwynedd ac Eryri yn leoedd unigryw a phwysig.

Mae'r rhaglenni yn cynnwys modiwl Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO.

Llysgennad Gwynedd, cliciwch **yma**.

Llygsenngad Eryri, cliciwch **yma**.

8. Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth am ein cynlluniau, ewch i **www.llechi.cymru** neu cysylltwch â **llechi@gwynedd.llyw.cymru**.

Cyfryngau Cymdeithasol (cliciwch):

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

LLEWYRCH O'R LLECHI

Rhaglen o wellianau ar waith, gwerth £30m ar draws y STYB

300+

o ddisgyblion oed uwchradd wedi bod yn rhan o sesiynnau ymgysylltu cynllun Llysgenhadon Llechi Ifanc

Llechi Cymru yn cael ei adnabod fel ymarfer da gan UNESCO yn y maes ymgysylltu a chyd greu cymunedol

Sicrhau nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer cynllun **LleCHI LleNI** am gyfnod o 5 mlynedd

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

4 CYFARFOD BWRDD PARTNERIAETH

Tîm Llechi Cymru

Penodi 5 swydd newydd

£21m

Cyfanswm grantiau uniongyrchol i Gyngor Gwynedd ers sicrhau y dynodiad

8 Adolygiad Ardal Cadwraeth

Brecwastau Busnes

Nifer o unigolion / sefydliadau ar is-grwpiau

200+

19

Nifer o declynnau ar wefan Llechi Cymru

yn cynnwys teithlenni, gwybodaeth cynllunio, adnoddau i fusnesau

Sesiynau hyfforddiant i staff sy'n wynebu cwsmeriaid

Yr Amgueddfa Lechi wedi cau ar gyfer ailddatblygiad sylweddol

ADOLYGIAD O STRWYTHUR LLYWODRAETHU Y STYB

7 Sesiwn adborth anffurfiol i ddatblygiadau arfaethedig o fewn/ gerllaw y STYB

Cwrs MA Prifysgol Bangor yn parhau i redeg

SAFLE TREFTADAETH Y BYD

Llechi Cymru
Wales Slate

WORLD HERITAGE SITE

unesco

Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
Cofrestrwyd ar Restr Treftadaeth y Byd yn 2021